CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Chwefror 15fed 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies, Ifor Edwards, Emlyn Williams

Presennol: Gwydion Jones (Cadeirydd), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Gwyn Williams, Elen Edwards, Einir Williams, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc

63.1 DATGAN CYSYLLTIAD - rhoddwyd cyfle i aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

63.2 COFNODION - edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 17eg Ionawr a phenderfynwyd yn unfrydol eu bod yn gofnod cywir.

63.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
63.3.1 TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd ebost gan y cyfreithwyr yn cytuno y dylem geisio cwblhau'r trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn ariannol a'u bod am gysylltu â Chyngor Conwy ynglŷn â hyn. Deellir bod y Cyngor Sirol am osod 'de-humidifiers' yn y toiled. Hefyd cyfeiriwyd at yr angen i wneud cais am arian o'r Cynllun Toiledau Cyngor B S Conwy – cytunodd Ann Vaughan i wneud hyn. Adroddodd Dilwyn Roberts y bydd Will Roberts, Adran Traffig yn cysylltu yn fuan ynglŷn ag arwyddion twristiaeth yn Llangernyw.
63.3.2 YMGYNGHORI AR GEISIADAU CYNLLUNIO AR LEIN YN UNIG – adroddodd Dilwyn Roberts ei fod wedi cael gair â Paula Jones, Prif Swyddog Cynllunio ynglŷn a'r bwriad i beidio anfon ceisiadau ar bapur i gynghorau a'i bod yn derbyn ein sylwadau a'n pryder.
63.3.3 Y WEFAN – cafwyd gwybodaeth gan Mr Arfon Parry ynglŷn â defnydd o'r wefan a gwelwyd bod tua 135 clic wedi ei wneud yn ystod mis Ionawr oedd yn galonogol i'r Cyngor. Gofynnwyd a oeddem wedi derbyn arian gan Un Llais ar gyfer y wefan o gwbl.
63.3.4 YMDDISWYDDIAD Y CLERC – penderfynwyd i gychwyn ar y broses o hysbysebu'r swydd yn y papurau bro, gyda Un Llais a SLCC ac i ofyn i Un Llais am 'model contract clerc a swydd ddisgrifiad'. Hefyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
63.3.5 BAND EANG – derbyniwyd ateb i'n llythyr gan David Jones AS a chopi o lythyr gan Openreach yn nodi bod un cabinet sy'n cyflenwi Gwytherin wedi ei gwblhau a bod cwsmeriaid yn medru derbyn band eang drwy ffeibr, bod Superfast Cymru yn gyfrifol am gyflenwi'r ail gabinet a dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2017. Ategodd Dilwyn Roberts iddo siarad ag Alwen Williams, Pennaeth BT yng Nghymru a'i chynorthwywr a'u bod yn sicrhau y bydd y band eang cyflym yn gweithio yno erbyn yr haf eleni.

63.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
63.4.1 PONT AFON DYFFRYN GALL (GER CARTREF Y FICERDY) – adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Roberts y dylai'r gwaith gael ei gwblhau mewn mis. Derbyniwyd ebost gan Bryn Shilland, Cyngor Conwy yn nodi eu bod wedi cadw strwythur bwa y bont wreiddiol oherwydd ei gyflwr, er mwyn arbed arian a chadw gwedd hanesyddol y bont. Dywedodd na fydd y bont llawer lletach na'r hen un - dim ond 100mm.

63.4.2 PONT HENDRE DDU – adroddodd Cyngh Dilwyn Roberts y bydd gwaith yn dechrau arni yn fuan.
63.4.3 ALLT CAPEL CEFN COCH - mae arwyddion 'Wyneb dros dro' ar y ffordd a gobeithia Conwy weithio arni pan fydd y tywydd yn gwella. PENDERFYNWYD i gysylltu â'r Adran Ffyrdd i ofyn iddynt ailwynebu'r ffordd yn gyfangwbl.

63.5 RHEOLIADAU ARIANNOL DIWYGIEDIG – nid oedd yr is-bwyllgor wedi cyfarfod a phenderfynwyd i gyfarfod nos Lun, Mawrth 6ed am 7 o'r gloch.

63.6 MATERION CYNLLUNIO
63.6.1 Cais Rhif 0/43636 Estyniad arfaethedig i annedd bresennol yn Glan Elwy Cottage, Llangernyw gan Mr S Fletcher. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
63.6.2 Cais Rhif 0/43645 Codi adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Blaenorol) yn Bryn Ynyr, Llanfair Tal Haiarn gan Mr David Jones. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
63.6.3 Cais Rhif 0/43528 Adeiladu sied amaethyddol yn Tan y Graig, Llangernyw – cais wedi ei dynnu yn ôl.

63.7 PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Diane M Roberts lle roedd cynrychiolydd o swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn yn bresennol. Cyfeiriwyd at ofynion yswiriant cynghorwyr dros 80 oed. Diolchwyd i Diane Roberts am fynychu ac am yr adroddiad.

63.8 CWRS PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH I GYNGHORWYR Cafwyd adroddiad o'r cwrs gan Diane M Roberts lle cyfeiriwyd at gydnabyddiaeth ariannol er mwyn denu mwy o gynghorwyr. Mae 735 cyngor tref a chymuned yng Nghymru a phob un yn amrywio o ran cyfrifoldebau, cyllideb a graddfa gweithgareddau. Diolchwyd i Diane Roberts am fynychu'r cwrs gan y Cadeirydd.

63.9 MABWYSIADU CIOSG FFÔN – PENDERFYNWYD i fabwysiadu dau giosg ffôn – Llangernyw a Phandy Tudur ac nad oedd gennym wrthwynebiad i BT dynnu'r ffonau ohonynt. Penderfynwyd i holi Ysgol Bro Cernyw os oedd ganddyn nhw syniadau beth i'w wneud â chiosg Llangernyw.

63.10 UN LLAIS CYMRU – PENDERFYNWYD i ymaelodi ag Un Llais eto eleni a'r gost fyddai £142.

63.11 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy ond i beidio cyfrannu at 'Taith dros Fywyd (Aren Cymru)'.

63.12 BLWYDDYN CHWEDLAU 2017 – derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod yn Llanrwst. Y Clerc i roi gwybod iddynt y bydd arddangosfa yn Amgueddfa Syr Henry Jones ar chwedlau lleol ddiwedd mis Mai.

63.13 AROLWG CYNGHORAU CYMUNED A THREF LLYWODRAETH CYMRU – penderfynwyd i'r Clerc a'r Cadeirydd ei lenwi.

63.14 AROLWG ETHOLIADOL CONWY – COMISIWN FFINIAU – gwahoddwyd cynrychiolydd i fynychu cyfarfod ym Modlondeb ar Fehefin 1af. Roedd Gwyn Williams yn awyddus i fynychu.

63.15 PAPUR GWYN DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL – penderfynwyd i anfon y wybodaeth i bob cynghorydd a chopi o ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i'r papur. Bydd angen sylwadau erbyn 11eg Ebrill.

63.16 MATERION LLEOL
63.16.1 Daeth cwyn unwaith eto ynglŷn a chyflwr yr Hen Efail, Llangernyw. Adroddwyd bod Cyngor Conwy wedi ysgrifennu at y perchennog.
63.16.2 Angen gofyn am fwy o fannau pasio ar ffordd y Ficerdy, Pandy Tudur gan ei bod yn bell i facio i le hwylus.
63.16.3 Twll yn y ffordd ochr isaf i Buarth Cerrig, Pandy Tudur.
63.16.4 Porch yn cael ei godi yn Harlequin Cottage, Llangernyw – y Clerc i holi a oes angen caniatâd cynllunio.
63.16.5 Pryder am gyflymder peiriannu amaethyddol yn yr ardal.
63.16.6 Twll ar allt Tyn Bryn, Gwytherin. Bu pwyllgor safle ynglŷn a'r ffordd ac angen gofyn beth oedd y canlyniad.
63.16.7 Archwilio Llyfrau – cyfeiriodd Cyng Dilwyn Roberts at y syniad bod archwilwyr Cyngor Sirol yn gwneud y gwaith i'r cynghorau llai gan fod costau i rai cynghorau wedi codi eleni.

63.17 BILIAU
Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cyfrifon) £274.80

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50 yr hwyr.

Cymeradwywyd y Cofnodion ....G A Jones..... Dyddiad ...22/3/17.....

Community Council Meeting was held on Wednesday February 15 2017 at 7.30 pm at Gwytherin Community Centre

Apologies: Gwynfor Davies, Ifor Edwards, Emlyn Williams

Present: Gwydion Jones (Chair), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Gwyn Williams, Elen Edwards, Einir Williams, Cllr Dilwyn Roberts and the Clerk.

63.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare connection with items on the Agenda.

63.2 RECORDS - looked at the minutes of January 17 and unanimously agreed that it was an accurate record.

63.3 MATTERS ARISING
63.3.1 LLANGERNYW TOILETS - received an email from the lawyers agreeing that we should try to complete the transfer during the financial year and that they would contact Conwy Council about this. It is understood that the County Council were arranging for de-humidifiers to be placed in the toilet. Also referred to the need to apply for funding from Conwy Council Toilet Plan

- Ann Vaughan agreed to do this. Dilwyn Roberts reported that Will Roberts, Department of Traffic would be in touch soon about tourist signs in Llangernyw.
63.3.2 ONLINE CONSULTATION ONLY ON PLANNING APPLICATIONS - Dilwyn Roberts reported that he had spoken to Paula Jones, Chief Planning Officer regarding the intention to not send paper applications to councils and that she is accepting our comments and concern.
63.3.3 WEBSITE - information was received from Mr Arfon Parry regarding use of the website and found that about 135 clicks were made during January which was encouraging to the Council. It was asked if we had received money from One Voice Wales towards the website at all.
63.3.4 RESIGNATION OF THE CLERK - decided to begin the process of advertising the position in the community newspapers, with SLCC and One Voice Wales and to ask for a 'model contract and clerk job description'. Also to put the matter on the Agenda of the next meeting.
63.3.5 BROADBAND - received reply to our letter from David Jones MP and a copy of a letter from Openreach noting that one cabinet supplying Gwytherin has been completed and that customers are able to receive broadband via fibre, that Superfast Wales was responsible for supplying the second cabinet and the work should be completed by the end of May 2017.Cllr Dilwyn Roberts added that he spoke with Alwen Williams, Head of BT in Wales and her assistant and they ensured that the high-speed broadband would be working there by this summer.

63.4 ROADS AND ENVIRONMENT ISSUES
63.4.1 DYFFRYN GALL RIVER BRIDGE (NEAR THE OLD VICARAGE NURSING HOME) - Cllr Dilwyn Roberts reported that the work should be completed in a month's time. Email received by Bryn Shilland, Conwy Council indicating that they have retained the original bridge arch structure due to its condition, to save money and keep the historic look of the bridge. He said the bridge will not be much wider than the old one - only 100mm.
63.4.2 HENDRE DDU BRIDGE - Cllr Dilwyn Roberts reported that work will start soon.
63.4.3 CEFN COCH CHAPEL HILL - has 'temporarily road surface' signs on the road and Conwy hope to be working on it when the weather improves. RESOLVED to contact the Highways Department to ask them to resurface the road.

63.5 REVISED FINANCIAL REGULATIONS - the subcommittee did not meet and it was decided to meet on Monday evening, March 6th at 7 o'clock.

63.6 PLANNING ISSUES
63.6.1 Application No. 0/43636 Proposed extension to existing dwelling at Glan Elwy Cottage, Llangernyw by Mr S Fletcher. RESOLVED unanimously to support the application.
63.6.2 Application No. 0/43645 Erection of agricultural building (Prior Agricultural Approval) in Bryn Ynyr, Llanfair Tal Haiarn by Mr. David Jones. RESOLVED unanimously to support the application.
63.6.3 Application No. 0/43528 Erection of agricultural shed at Tan y Graig, Llangernyw - application has been withdrawn.

63.7 ONE VOICE REGIONAL COMMITTEE - a report of the meeting was given by Diane M Roberts where a representative from the Commissioner for Older People's Office was in attendance. She referred to Insurance requirements to councillors over 80 years old. Diane Roberts was thanked for attending and for the report.

63.8 INDEPENDENT PANEL FOR WALES ON REMUNERATION FOR COUNCILORS
A report was given on the course by Diane M Roberts in which reference was made to remuneration in order to attract more councillors. There are 735 town and community councils in

Wales and all vary in responsibilities, budget and scale of activities. Diane Roberts was thanked for attending the course by the Chair.

63.9 ADOPTION OF PHONE KIOSK - RESOLVED to adopt two phone boxes - Pandy Tudur and Llangernyw and there was no objection to BT removing the phones from them. Decided to ask Ysgol Bro Cernyw if they had any ideas what to do with the Llangernyw kiosk.

63.10 ONE VOICE WALES - RESOLVED to join again this year and the cost would be £ 142.

63.11 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED to contribute £ 30 towards Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy but not to contribute to the 'Walk for Life (Kidney Wales)'.

63.12 YEAR OF LEGEND 2017 - received information about a meeting in Llanrwst. The Clerk to let them know that Sir Henry Jones Museum is holding and exhibition on local legends starting at end of May.

63.13 WALES GOVERNMENT REVIEW OF COMMUNITY AND TOWN COUNCILS - Clerk and Chairman to fill the questionairre.

63.14 CONWY ELECTORAL REVIEW - BOUNDARY COMMISSION - invited a representative to attend a meeting at Bodlondeb on June 1st. Gwyn Williams was eager to attend.

63.15 LOCAL GOVERNMENT REFORM WHITE PAPER - decided to send the information to each councillor and a copy of the Welsh Local Government Association response (WLGA) to the paper. Need comments by April 11.

63.16 LOCAL ISSUES
63.16.1 A complaint was received again on the state of the Old Smithy, Llangernyw. Reported that Conwy Council has written to the owner.
63.16.2 Need to requested more passing places on the Old Vicarage, Pandy Tudur road as it is far to reverse to a convenient place.
63.16.3 Pot hole in the road near Buarth Cerrig, Pandy Tudur.
63.16.4 Porch being erected at Harlequin Cottage, Llangernyw - the Clerk to check if planning permission is required.
63.16.5 Concern was expressed about the speed of agricultural machinery on the roads in the area.
63.16.6 Pot hole on Tyn Bryn hill, Gwytherin. A site meeting was held and need to ask what the outcome was.
63.16.7 Audit Books - Cllr Dilwyn Roberts referred to the suggestion that Conwy Council auditors could do the work for smaller councils as costs for some councils have risen this year.

63.17 BILLS
Wales Audit Office (Audit of Accounts) £ 274.80

The meeting ended at 9.50 pm.

Approved the Minutes ....G A Jones..... ..... Date....22/3/17.....